



Gwybodaeth Cydraddoldeb ar gyfer 1 Ionawr 2023 i 31 Rhagfyr 2023 Grŵp Colegau NPTC

1. Cyflwyniad

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn ei ganllaw 'Gwybodaeth cydraddoldeb: Canllaw i awdurdodau cyhoeddus rhestredig yng Nghymru' yn amlinellu'r gofynion canlynol:

Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gyflawni'r canlynol:

- gwneud trefniadau priodol i sicrhau ei fod o bryd i'w gilydd yn nodi gwybodaeth berthnasol y mae'n ei chadw ac yn nodi ac yn casglu gwybodaeth nad yw ganddo.
- gwneud trefniadau priodol i nodi a chasglu gwybodaeth am wahaniaethau mewn cyflog, ac achosion unrhyw wahaniaethau o'r fath, rhwng cyflogeion sydd â nodwedd warchoddedig a'r rhai heb nodwedd o'r fath.
- cyhoeddi'r wybodaeth berthnasol sydd ganddo, oni bai y byddai'n amhriodol gwneud hynny (e.e., pe bai'n mynd yn groes i ddeddfwriaeth Diogelu Data neu ddeddfwriaeth arall). Rhaid cyhoeddi'r wybodaeth hon erbyn 2 Ebrill 2013 a'i hadolygu o bryd i'w gilydd.

Fel rhan o'r broses o nodi gwybodaeth berthnasol, bydd angen i awdurdod asesu sut gall ei waith a'i weithgareddau helpu i gyflawni tri nod y ddyletswydd gyffredinol.

Wrth asesu sut mae'n cyflawni ei weithgareddau yn unol â'r ddyletswydd gyffredinol, rhaid i awdurdod gyflawni'r rhwymedigaethau ymgysylltu a rhoi sylw dyledus i wybodaeth berthnasol arall. Rhaid cynnal yr asesiad hwn erbyn 2 Ebrill 2013 a'i adolygu o bryd i'w gilydd.

Fel rhan o'i ddyletswyddau penodol ar adrodd blynyddol, mae'n ofynnol i gorff rhestredig gyhoeddi ei resymau dros beidio â chasglu gwybodaeth berthnasol y mae wedi'i nodi ond nad yw ganddo.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu data cydraddoldeb Grŵp Colegau NPTC ar gyfer staffio ar gyfer y flwyddyn 1 Ionawr 2023 i 31 Rhagfyr 2023 fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Mae casglu a monitro data am amrywiaeth ein gweithlu yn ein galluogi i archwilio sut mae ein polisiau a'n prosesau cyflogaeth yn gweithio, fel bod modd nodi meysydd lle mae'n ymddangos bod y rhain yn effeithio'n anghymesur ar grwpiau penodol o staff. Yn bwysig, mae casglu data, ynghyd â dadansoddi, yn siapio ac yn sail i gamau gweithredu priodol.


2. Proffil Staff


Mae Adran 2 yn manylu ar broffil y staff a gyflogir yn y Coleg. Mae Atodiadau 1 i 8 yn dangos y data ar gyfer aelodau staff y Coleg ar gyfer y flwyddyn 1 Ionawr 2023 i 31 Rhagfyr 2023, ynghyd â'r flwyddyn gymharu rhwng 1 Ionawr 2022 a 31 Rhagfyr 2022.

Daw'r wybodaeth am broffil y staff o'r system Adnoddau Dynol (AD) a Chyflogres. Mae staff yn gallu diweddarau a chynnal eu proffil cydraddoldeb drwy'r Dangosfwrdd AD. Daw'r data recriwtio o'r system recriwtio 'Hire Road' sydd wedi'i mabwysiadu yn fwy diweddar gan y Coleg ym mis Mehefin 2023.

Mae'r wybodaeth am broffil y staff yn dangos y data ar gyfer aelodau o staff ar 31 Rhagfyr 2023 o gymharu â data o 31 Rhagfyr 2022. Ar 31 Rhagfyr 2023 roedd 890 aelod o staff yn cael eu cyflogi yn y Coleg, o gymharu â 884 ar 31 Rhagfyr 2022. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys staff cronfa/achlysurol y gallai'r Coleg alw arnynt i ddarparu gwasanaeth cyflenwi. Mae Ffigur 1 isod yn dangos dadansoddiad o'r staff fesul categori o gontract cyflogaeth ar gyfer 2023. Mae Ffigur 2 yn dangos yr un dadansoddiad ar gyfer 2022.

Mae nifer cyffredinol y staff a gyflogir yn y Coleg yn 2023 wedi aros yn sefydlog yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Bu cynnydd bychan yng nghyfran y staff PTHP y gellir ei briodoli i'r ffaith bod y Coleg yn cadw staff ar sail cyflenwi yn dilyn eu hymddeoliad er mwyn cyflenwi ar gyfer goruchwyllo. Mae'r categori rheoli wedi gostwng 1%. Gellir priodoli'r gostyngiad yn y categori rheoli i'r ymarfer ailstrwythuro i ddiogelu'r dyfodol a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2023, a arweiniodd at uno nifer o ysgolion.






Ffigur 2


2.1. Oedran

Mae Atodiad 1 yn dangos proffil oedran aelodau staff y Coleg ar 31 Rhagfyr 2023 a 31 Rhagfyr 2022. Mae Ffigur 3 isod yn dangos dadansoddiad o gyfanswm y staff yn ôl oedran ar 31 Rhagfyr 2023. Mae Ffigur 4 yn dangos y dadansoddiad cymharol ar gyfer 31 Rhagfyr 2022.

Mae proffil oedran aelodau staff y Coleg yn 2023 yn debyg iawn i'r proffil ar gyfer 2022, ac am y pum mlynedd flaenorol. Gwelwyd gostyngiad bychan yn y categorïau oedran 21-30 a 51-60 wrth gyfrif pennau (7 i'r ddau), cynyddodd y categori oedran 31-40 o 6, a'r categori 41-50 o 1 yn unig. Fodd bynnag, am yr ail flwyddyn yn olynol gwelwyd twf yn y categori dros 60 oed gyda 10 aelod o staff ychwanegol yn y categori oedran hwn.



Ffigur 3




Ffigur 4


2.2. Rhywedd

Mae Atodiad 2 yn manylu ar broffil rhywedd y Coleg ar 31 Rhagfyr 2023 a 31 Rhagfyr 2022. Yn gyffredinol, mae rhaniad rhywedd y staff wedi aros yr un fath yn 2023, gyda benywod yn cyfrif am 62% o'r holl weithlu (62% yn 2022) a gwrywod 38% (38% yn 2022). Mae Ffigur 5 isod yn dangos dadansoddiad o'r proffil rhywedd yn ôl maes swydd ar gyfer 2023. Mae Ffigur 6 yn dangos yr un dadansoddiad ar gyfer 2022. Newidiodd proffil rhywedd yr aelodau o staff yn y categori rheoli ychydig, gyda benywod nawr yn cyfrif am 65% o'r holl reolwyr (61% yn 2022). Gwelwyd cynnydd ymhlith y benywod yn y categori cefnogi gyda'r rhaniad yn 73% benywod (72% yn 2022) a 27% gwrywod (28% 2022). Gwelodd y categori cefnogaeth academaidd gynnydd ymhlith y benywod, yn cyfrif am 55% o'r categori yn 2023 o gymharu â 54% yn 2022. I'r gwrthwyneb, gwelodd y categori academaidd ostyngiad yn y gyfran o fenywod gyda 57% yn y categori hwn yn 2023 o

gymharu â 58% yn 2022. Arhosodd cyfran y benywod sydd â chontract rhan amser yr un fath yn 62%.



Ffigur 5



Ffigur 6


Yn 2023, roedd y Coleg yn cyflogi cyfanswm o 345 o staff ar gontract llawn amser, o gymharu â 337 yn 2022. O blith y cyflogeion hynny, newidiodd y rhaniad rhwng y rhywiau o 51% benywod, 49% gwrywod yn 2022 i 52% benywod, 48% gwrywod yn 2023. Arhosodd proffil rhywedd y 512 o staff a gyflogwyd ar gontractau rhan amser yn 2023 yn sefydlog gyda 69% yn fenywod (69% 2022) a 31% yn wrywod (31% 2022). Adlewyrchir hyn yn y ceisiadau gweithio hyblyg a dderbyniwyd yn 2023, gyda 80% wedi'u derbyn gan staff benywaidd.

2.3. Ethnigrwydd

Yn 2023, roedd 1.9%* o aelodau staff Grŵp Colegau NPTC yn dosbarthu eu hunain fel pobl o gefndir Du Asiaidd neu Leiafrif Ethnig, cynnydd bychan o gymharu â 2022 pan oedd

yn 1.7%, felly cynnydd cadarnhaol. Mae Atodiad 3 yn rhoi dadansoddiad llawn o ethnigrwydd yr aelodau o staff yn erbyn eu grwpiau staffio ar gyfer 2023 a 2022. Yn ôl ffigurau a ddarparwyd gan ONS a'r cyfrifiad (www.ons.gov.uk), 5.1% oedd canran y bobl yng Nghymru oedd yn uniaethu fel pobl Ddu Asiaidd neu Leiafrif Ethnig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2023, felly rydym yn parhau â thangynrychiolaeth o gymharu â'r ddemograffeg ledled Cymru. Fodd bynnag, mae proffil y Coleg yn cymharu'n fwy cadarnhaol ag ardaloedd mwy penodol Castell-nedd Port Talbot a Phowys, a gofnododd rai o'r ffigurau isaf, sef 3.4% a 2.3% yn y drefn honno, yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae hwn wedi ac yn parhau i fod yn faes ffocws i'r Coleg a'r Grŵp Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI).

*Ar ôl ceisio arweiniad gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol rydym wedi cadw ein ffigurau categori 'lleiafrifoedd ethnig' i beidio â chynnwys 'Gwyn Arall'. Mae'n parhau i gynnwys Roma Gwyn, Sipsiwn, a theithwyr Gwyddelig. Teimlwn fod hyn yn arfer gorau o ystyried demograffeg ein coleg ac yn 'wir adlewyrchiad' o'n sefydliad a'n hymdrechion parhaus i wella ein hunain yn y maes hwn.



Ffigur 7


2.4. Cyflog

Mae Rheoliadau 2017 Deddf Cydraddoldeb 2010 (Gwybodaeth Bwlch Cyflog y Rhywiau) yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwr sydd â 250 neu fwy o gyflogeion gyhoeddi gwybodaeth am fwllch cyflog y rhywiau ymhlith ei gyflogeion. Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn dangos y gwahaniaeth rhwng enillion cyfartalog (cymedrig neu ganolrifol) dynion a merched. Mynegir hyn fel canran o enillion y dynion; felly, mae bwlch cyflog cadarnhaol yn dangos bod cyflog cyfartalog dynion yn fwy nag un merched, tra bo bwlch cyflog negyddol yn dangos bod cyflog cyfartalog merched yn fwy nag un dynion. Archwilir y data hyn yn Adroddiad Bwlch Cyflog y Rhywiau Grŵp Colegau NPTC sy'n adroddiad ar wahân.


At ddibenion yr adroddiad hwn, mae Atodiad 4 yn dangos dadansoddiad o gyflog mewn perthynas â rhywedd a grwpiau staff, yn seiliedig ar gyfwerth â llawn amser (FTE). Mae Ffigurau 8 a 9 isod yn darparu dadansoddiad o gyflog cyfartalog yn ôl rhywedd fesul categori swydd. Yn gyffredinol, ar gyfer 2023, mae cyfanswm y cyflog cyfartalog (cymedrig) ar draws yr holl swyddi yn seiliedig ar FTE, ar gyfer gwrywod mae 2% yn uwch na benywod, o gymharu ag 1.7% yn 2022. Mewn termau ariannol, roedd cyflog cyfartalog

y benywod yn 2023 £729.79 yn llai na chyflog cyfartalog y gwrywod. O gymharu, yn 2022 roedd £572 yn llai. Er bod bwloch o hyd mewn cyflog rhwng dynion a merched, mae'r ffigur cyffredinol yn cymharu'n ffafriol â data a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) sy'n dangos mai'r bwloch cyflog cenedlaethol rhwng y rhywiau ar gyfer cyflogaion yn ystod 2023 oedd 14.3%, oedd yn ostyngiad o 14.4% yn 2022. (Am fanylion llawn gweler yr Adroddiad Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau.)

Roedd y categorïau Cefnogaeth Academaidd a Chefnogi i gyd yn dangos cyflog ychydig yn uwch ar gyfer gwrywod (3.6% ac 1.2% yn y drefn honno). Roedd y categorïau sy'n weddill yn dangos bod y cyflog FTE cyfartalog ar gyfer staff benywaidd yn uwch nag ar gyfer eu cydweithwyr gwrywaidd. Yn y categori Academaidd, roedd cyflogau cyfartalog y benywod ychydig yn uwch na'r gwrywod yn 1.7%, o gymharu ag 1.7% yn uwch yn ystod y flwyddyn flaenorol. Yn y categori Rheoli bu gwelliant sylweddol unwaith eto eleni lle'r oedd cyflog cyfartalog y benywod 3.1% yn uwch na chyflog cyfartalog y gwrywod. Mae staff Rhan Amser sy'n cael eu Talu Fesul Awr yn dangos bod cyflogau'r gwrywod 0.3% yn uwch na'r benywod, fodd bynnag gan fod y ffigurau ar gyfer staff rhan amser sy'n cael eu talu fesul awr yn parhau'n isel, nid yw'r niferoedd yn ddigon mawr i ddod i gasgliadau cadarn am y ffigur canrannol hwn.



Ffigur 8



Ffigur 9

Mae'r Coleg wedi ymrwmo i gael gwared ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau ac mae'n rhoi camau gweithredu amrywiol ar waith i'w leihau, gan gynnwys y canlynol:


- Parhau i adolygu ein polisiau a'n prosesau recriwtio, gan gynnwys nodi a dileu rhwystrau mynediad, parhau i wneud y broses ymgeisio'n ddiennw er mwyn lleihau rhagfarn anymwybodol a sicrhau bod cyfwelwyr wedi cael hyfforddiant 'Rheoli Amrywiaeth' a rhagfarn anymwybodol.
- Mynd ati i gefnogi merched sy'n dychwelyd i'r gwaith ar ôl absenoldeb mamolaeth neu fabwysiadu. Rydym yn cynnig absenoldeb rhiant a rennir a chyfleoedd gweithio hyblyg, er enghraifft, rhannu swydd, oriau cryno neu batrymau gwaith rhan amser.
- Sicrhau bod merched yn cael y cyfle a'r gefnogaeth i ddatblygu eu gyrfaoedd yn y Coleg, gan gynnwys y rhaglen Darpar Reolwyr.
- Drwy ein hadolygiadau adrannol, cymryd camau wedi'u targedu i sicrhau bod gwahaniaethau cyflog rhwng y rhywiau yn cael sylw lle bo modd.
- Sicrhau bod cydraddoldeb y rhywiau yn rhan annatod o'n Strategaeth Cydraddoldeb.

2.5. Anabledd


Mae Atodiad 5 yn dangos y data a gedwir ar gyfer aelodau o staff sy'n ystyried eu hunain ag anabledd. Ar 31 Rhagfyr 2023, roedd 5.9% o'r 890 aelod o staff a gyflogwyd yn y Coleg yn dosbarthu eu hunain ag anabledd, o gymharu â 4.3% o'r 885 o staff a gyflogwyd yn y Coleg ar 31 Rhagfyr 2022. Dylid nodi bod 23.9% o'r cyflogeion, yn 2023, eto i ddarparu data yn y categori hwn. Er bod hyn yn parhau i fod yn siomedig o isel, mae'n welliant parhaus o 2022 pan fethodd 26% o'r staff â darparu'r data hyn. Argymhellir bod y Grŵp Strategaeth EDI yn parhau i edrych ar hyn ymhellach.

O blith y 53 o staff a ddatganodd anabledd, mae 47% yn cael eu cyflogi ar gontract llawn amser (42% yn 2022) a 53% yn cael eu cyflogi ar gontract rhan amser (58% yn 2022). Mae Ffigurau 10 ac isod yn dangos dadansoddiad o'r staff a ddatganodd anabledd fesul maes swyddi yn ystod 2023 o gymharu â 2022. O blith y staff hynny a ddatganodd anabledd, mae'r mwyafrif (40%) yn cael eu cyflogi yn y categori Cefnogi, newid o'r

flwyddyn flaenorol pan oedd y mwyafrif yn cael eu cyflogi yn y Categori Cefnogaeth Academaidd.



Ffigur 10




Ffigur 11

2.4. Crefydd neu Gred


Mae Atodiad 6 yn dangos data ynglŷn â chrefydd neu gred y cyflogeion ar 31 Rhagfyr 2023 a ffigurau cymharol ar gyfer 31 Rhagfyr 2022. Roedd cyfran y staff heb ddarparu data yn y categori hwn yn ystod 2023 yn 14% o gymharu â 15% yn 2022. Cynyddodd

nifer y staff oedd yn ffafrio peidio ag ateb ryw ychydig i 3% o gymharu â 2.9% ym mis Rhagfyr 2022.

Mae Cristnogaeth yn parhau i fod y grŵp Crefydd/Cred mwyaf gydag ychydig dros 40% o'r staff yn gosod eu hunain yn y categori hwn. Mae hyn wedi gostwng o 42% ym mis Rhagfyr 2022. Mae nifer y staff sy'n datgan nad oes ganddynt unrhyw grefydd neu gred wedi cynyddu o 34% yn 2022 i 37% o'r gweithlu yn 2023. Mae'r grŵp hwn wedi parhau i gynyddu yn ystod y blynnyddoedd diwethaf. Mae Ffigurau 11 a 12 yn dangos proffil y staff o ran Crefydd neu Gred ar gyfer 2023 o gymharu â 2022.



Ffigur 12



Ffigur 13

2.5. Cyfeiriadedd Rhywiol

Mae Atodiad 7 yn dangos data ynghylch cyfeiriadedd rhywiol y cyflogeion ar 31 Rhagfyr 2023 a ffigurau cymharu ar gyfer 31 Rhagfyr 2022. Mae'r datgeliadau LHDT+ yn dod i gyfanswm o 2.4% ar hyn o bryd, gostyngiad bychan o 2.5% yn 2022. Yn 2023, ni ddatgelodd 14.6% o gyflogeion eu cyfeiriadedd rhywiol, o gymharu â 16.1% yn 2022. Er mai gwelliant bach yw hwn, mae'n parhau â thuedd gadarnhaol o ddatgeliadau o fewn y categori hwn. Gwelwyd gostyngiad bychan yn nifer y cyflogeion y byddai'n well ganddynt beidio â datgelu, o 2.7% i 2.6%, ac er ei fod yn fychan, mae'n ostyngiad cadarnhaol.

2.6. Trawsrywedd

Mae Atodiad 8 yn dangos data ynghylch Trawsrywedd ar 31 Rhagfyr 2023 a ffigurau cymharu ar gyfer 31 Rhagfyr 2022. Yn 2023, mae 68% o gyflogeion wedi datgan bod eu rhywedd yr un fath â'r hyn a neilltuwyd iddynt adeg eu geni, o gymharu â 66% yn 2022. Bu gwelliant gyda chyflogeion yn darparu data yn y categori hwn, gyda 66% o gyflogeion bellach yn darparu data, o gymharu â 66% yn 2022.

3. Gwybodaeth Recriwtio

Daw'r data recriwtio o ddwy ffynhonnell ar gyfer y flwyddyn 2023. Ar gyfer hanner cyntaf y flwyddyn casglwyd y ffigurau â llaw o ffurflenni cais ac ar gyfer ail hanner y flwyddyn tynnwyd y data o'r System Rheoli Recriwtio 'Hire Road' oedd yn cael ei gweithredu o'r newydd. Oherwydd y system, nid oedd yn bosibl echdynnu data oedran ar gyfer rhai rhannau a benodwyd yn ystod y cyfnod 1^{af} Mehefin i 31^{ain} Rhagfyr 2023. Felly, mae'r wybodaeth proffil oedran yn seiliedig ar oedran ymgeiswyr a gyflwynodd geisiadau papur ar gyfer y flwyddyn 2023.

Mae Adran 3 yn amlinellu'r data cydraddoldeb ar gyfer yr holl ymgeiswyr am swyddi a gafodd eu llenwi'n llwyddiannus yng Ngrŵp Colegau NPTC yn ystod 2023 gyda ffigurau cymharu ar gyfer 2022, ac eithrio oedran fel yr amlinellir uchod.

Er bod y data cydraddoldeb yn rhan o'r ffurflen gais ar gyfer y Coleg, caiff yr holl wybodaeth nad yw'n angenrheidiol at ddibenion recriwtio ei dileu cyn ei hanfon at y panel llunio rhestr fer/recriwtio, gan gynnwys y ffurflen data cydraddoldeb ac enw a chyfeiriad yr ymgeiswyr.

Mae Atodiadau 9 i 12 yn dangos y data recriwtio ar gyfer 2023 a 2022. Yn 2023, roedd 1395 (1166 yn 2022) o ymgeiswyr a ymgeisiodd am swyddi yn y Coleg ac o blith y rhain roedd 181 yn llwyddiannus (228 yn 2022). Mae hyn yn cynnwys ceisiadau mewnol a phenodiadau. Hefyd wedi'u cynnwys yn y maes 'llwyddiannus' mae'r ymgeiswyr hynny a dynnodd yn ôl ar ôl eu penodi.

3.1. Oedran


Mae Ffigur 14 yn dangos canran oedran yr holl ymgeiswyr llwyddiannus yn 2023, mae Ffigur 15 yn dangos y proffil ar gyfer 2022. Roedd y ganran fwyaf o ymgeiswyr a lwyddodd i sicrhau rôl yng Ngrŵp Colegau NPTC yn 2023 rhwng 41 a 50 oed, sef ychydig dros 26% o'r holl ymgeiswyr llwyddiannus. Fodd bynnag, roedd mwy o gydbwysedd rhwng y categorïau 21-30, 31-40 a 41-50, a oedd i gyd o fewn 2% i'w gilydd.

Gwelodd y categori dan 20 oed welliant yn nifer yr ymgeiswyr llwyddiannus gan symud o 5% yn 2022 i 10% yn 2023. Gwelodd y categori 51 i 60 oed welliant bychan hefyd. Yn gyffredinol, mae'r data yn y maes hwn yn fwy cytbwys bellach gan ei fod yn dangos mwy o gysondeb rhwng yr ystodau oedran 21-30, 31-40 a 41-50.

Mae Atodiad 9 yn dangos y gyfradd trosi o gais i benodiad. Gwelodd y rhan fwyaf o categorïau yn 2023 gynnydd mewn trosi llwyddiannus o gais i benodiad. Cawsom fwy o geisiadau yn gyffredinol yn 2023 (1395 i fyny o 1166 yn 2022) a mwy ar y rhestr fer (950 i fyny o 661 yn 2022). Daeth y gwelliant gorau yn y categori dan 20, gan fwy na dyblu o 21.4% i 40.74%. Roedd y cyfraddau trosi llwyddiannus yn fwy cyson ar y cyfan yn 2023 nag yn 2022. Daeth yr ymgeiswyr mwyaf llwyddiannus o'r categori oedran 41-50 gyda chyfradd trosi o ychydig dros 22.83%.

Y cyfraddau trosi llwyddiannus ar gyfer ystodau oedran 31-40, 41-50 a 51-60 oedd 22.76%, 22.83% a 21.2% yn y drefn honno, sy'n sicr yn sefyllfa gadarnhaol a mwy cytbwys ar draws y categorïau oedran hynny.

Arhosodd y categori dros 60 oed yn sefydlog ar 13.3% gan ffurfio'r gyfran leiaf o drosi ceisiadau llwyddiannus ar 13.3% o gymharu ag union 13.3% yn y flwyddyn flaenorol hefyd.



Ffigur 14






Figure15

3.2. Rhywedd

Mae proffil rhywedd ymgeiswyr 2023 a 2022 i'w weld yn Atodiad 10, gyda Ffigurau 16 ac 17 isod yn dangos y proffilau ar gyfer 2023 a 2022. Roedd 1395 o ymgeiswyr yn 2023, o blith y rhain roedd 842 (60.36) yn fenywod, 525 (37.63%) yn wrywod, 3 (0.21%) yn arall a 25 (1.79%) heb ddatgelu. O gymharu, roedd 1166 o ymgeiswyr yn 2020 ac o blith y rhain roedd 667 (57.2%) yn fenywod a 489 (39%) yn wrywod. Roedd y 4% yn weddill o'r ymgeiswyr yn 'Arall' neu 'Heb Ddatgelu'.



Ffigur 16




Ffigur 17

Roedd proffil rhywedd yr ymgeiswyr rhwng gwryw a benyw yn llai cytbwys yn 2023 nag yn 2022. Cynyddodd yr heb ddatgelu ac arall 1%. Cynyddodd proffil rhywedd yr ymgeiswyr llwyddiannus ar gyfer benywod gyda 69.61% yn fenywod (62% yn 2022) a gostyngodd ar gyfer dynion, sef 29.8% (38% yn 2022) a'r 1% sy'n weddill heb ei ddatgelu, gan aros yn debyg.


3.3. Anabledd

Mae Atodiad 11 yn rhoi dadansoddiad o gyfanswm yr ymgeiswyr yn 2023 a 2022 a ddywedodd ar eu ffurflen gais bod ganddynt anabledd, gyda Ffigurau 18 ac 19 yn cyflwyno darlun o'r gyfradd drosi o gais i benodiad ym mhob categori. O'r 1395 o ymgeiswyr yn 2023, roedd gan 108 (7.7%) anabledd, o gymharu â 2022 gyda chyfanswm o 1166 o ymgeiswyr, ac roedd gan 34 (2.9%) o'r rhain anabledd. O'r 181 o ymgeiswyr a benodwyd yn llwyddiannus yn 2023, dywedodd 4.4% fod ganddynt anabledd, o gymharu â 2.2% yn 2022. Mae ceisiadau gan ymgeiswyr ag anabledd

wedi'i ddatgan a chyfran yr ymgeiswyr llwyddiannus ag anabledd wedi cynyddu, fodd bynnag, mae'r gyfradd drosi o gais i benodiad wedi gostwng.



Ffigur 18



Ffigur 19

3.4. Ethnigrwydd

Mae Atodiad 12 yn dangos canran nifer yr ymgeiswyr a oedd yn ystyried eu hunain o gefndir Du Asiaidd a Lleiafrif Ethnig ar gyfer 2023 a 2022. Yn 2023, roedd 6.7% o'r holl ymgeiswyr yn dod o gefndir lleiafrif ethnig, o gymharu â 7.7% yn 2022. Roedd gostyngiad yn nifer y ceisiadau a dderbyniwyd a chanran yr ymgeiswyr o leiafrif ethnig a gyrhaeddodd y rhestr fer, gan ostwng i 3.1% o gymharu â 4.7% yn ystod y flwyddyn flaenorol. Gwelwyd y gyfradd drosi o gais i restr fer yn gostwng hefyd gyda 31.9% o ymgeiswyr o leiafrif ethnig yn cyrraedd rhestr fer yn 2023, o gymharu â 34% yn 2022. Fodd bynnag, yn gyffredinol, gostyngodd nifer yr ymgeiswyr o gefndir lleiafrif ethnig a benodwyd yn 2023. O'r 181 o ymgeiswyr llwyddiannus roedd 3 o bobl (1.6%) o gefndir lleiafrif ethnig, o gymharu â 9 o bobl (3.9%) o 228 o benodiadau yn 2022. Roedd hyn


yn cynrychioli gostyngiad yn y gyfradd drosi o restr fer i benodiad, o 29% yn 2022 i 19% yn 2023.

4. Gwybodaeth am Staff yn Gadael


Mae Adran 4 yn manylu ar yr aelodau o staff a adawodd y Coleg yn ystod 2023 a 2022. Mae Atodiadau 13 i 17 yn dangos data'r staff yn gadael ar gyfer y flwyddyn 1 Ionawr 2023 i 31 Rhagfyr 2023, ynghyd â blwyddyn gymharu 1 Ionawr 2022 i 31 Rhagfyr 2022.

Yn 2023, gadawodd 80 aelod o staff y Coleg (8.9% o'r cyfanswm o 890 o staff ar 31 Rhagfyr 2023), o gymharu â 103 aelod o staff yn 2022 (11.6% o'r cyfanswm o 884 o staff ar 31 Rhagfyr 2022). Mae Ffigur 20 yn dangos y dadansoddiad o staff yn gadael yn ôl contract cyflogaeth ar gyfer 2023. Mae Ffigur 21 yn dangos yr un dadansoddiad ar gyfer 2022.

Yn 2023, roedd staff cefnogi yn parhau i gyfrif am y gyfran uchaf o staff yn gadael (43% yn 2023 o gymharu â 51% yn 2022 a 35% yn 2021). Pwynt i'w nodi fodd bynnag yw bod y staff yn gadael yn y categori cefnogi wedi gostwng 8%. Gwelodd cefnogaeth academaidd gynnydd yn nifer y staff yn gadael, gan gyfrif am 23% o'r holl staff yn gadael i fyny o 17% yn 2022. Gwelodd y categori academaidd hefyd ostyngiad o 2%. Gwelodd y rheolwyr gynnydd yn cyfrif am 8% o'r holl staff yn gadael, o gymharu â 3% yn ystod y flwyddyn flaenorol.




Ffigur 20




Ffigur 21

4.1. Oedran

Mae Ffigur 22 isod yn dangos proffil oedran y staff yn gadael yn 2023. Mae Ffigur 23 yn dangos proffil oedran y staff yn gadael ar gyfer 2022. Mae'r proffil oedran wedi cydbwysu dros y flwyddyn ddiwethaf gyda'r categorïau oedran is (o dan 20 i 40) bellach yn cyfrif am 30% o gymharu â 55% yn 2022. Yn 2023 roedd y categorïau 40-dros 60 yn cyfrif am 63% o'r holl staff yn gadael o gymharu â dim ond 48% yn 2022. Mae hyn yn unol â'n ffigurau poblogaeth staff oedran cyffredinol lle mae nifer o ymddeoliadau wedi digwydd.




Ffigur 22




Ffigur 23

4.2. Rhywedd

Mae Ffigur 24 isod yn dangos y proffil rhywedd ar gyfer staff yn gadael yn 2023. Mae Ffigur 25 yn dangos y proffil ar gyfer 2022. Yn 2023, roedd 61% o gyfanswm y staff a adawodd y Coleg yn fenywod o gymharu â 67% yn 2022. Ar gyfer yr un cyfnod, roedd 39% yn wrywod o gymharu â 33% yn 2022 (gweler Atodiad 14).



Ffigur 24



4.3. Anabledd

Yn 2023, roedd 6.2% o'r staff yn gadael yn ystyried bod ganddynt anabledd, o gymharu â 6.8% o staff yn gadael yn 2022 (gweler Atodiad 15).

4.4. Ethnigrwydd

Yn 2023, (gweler Atodiad 16), nododd 4 (5%) o'r staff yn gadael eu bod o gefndir lleiafrif ethnig. Yn 2022, roedd hefyd 4 aelod o staff yn gadael yn y categori hwn, sef 3.8%. Yn 2021, nid oedd unrhyw staff yn gadael yn y categori hwn.

5. Aelodau o Staff Sydd Wedi Ymgymryd â Hyfforddiant Yn Ystod y Flwyddyn

Mae Adran 5 yn edrych ar y data cydraddoldeb ar gyfer aelodau o staff sydd wedi ymgymryd â hyfforddiant yn ystod y cyfnod. Daw'r data cydraddoldeb o'r system AD a Chyflogres.

Mae Atodiadau 18 i 25 yn dangos y data sy'n ymwneud â hyfforddiant ar gyfer y flwyddyn 1 Ionawr 2023 i 31 Rhagfyr 2023, gyda blwyddyn gymharu rhwng 1 Ionawr 2022 a 31 Rhagfyr 2022.

Yn ystod 2023, ymgwymerodd 746 o staff â hyfforddiant, sy'n cyfateb i 83.8% o'r holl staff. Mae gostyngiad sylweddol wedi bod yn 2023. Mae hyn yn cymharu â 904 o staff (100%) yn 2022. O fewn y gwahanol feysydd swyddi, ymgwymerodd 71 allan o'r 75 o reolwyr â hyfforddiant yn ystod 2023, yn cyfateb i 94% o'r rheolwyr. O gymharu, ymgwymerodd 318 allan o'r 326 (97.5%) o'r staff academaidd, 200 allan o'r 259 (77%) o staff cefnogi, a 155 allan o'r 190 (82%) o'r staff cefnogaeth academaidd â hyfforddiant. Dim ond 5% o'r staff rhan amser sy'n cael eu talu fesul awr a ymgwymerodd â hyfforddiant yn 2023, sy'n ostyngiad sylweddol ar y flwyddyn flaenorol pan gymerodd

40% o'r grŵp hwn ran mewn hyfforddiant. Mae hwn yn faes i ddatblygiad staff ganolbwyntio arno wrth symud ymlaen.

Mae newid mewn patrymau gwaith wedi arwain at newid mewn gweithgarwch hyfforddi ac mae llawer o staff wedi parhau i ddefnyddio dysgu ar-lein ac wedi cael cefnogaeth gan amrywiaeth o hyrwyddwyr sydd wedi'u cyflwyno i gynnig cyngor arbenigol mewn amrywiaeth o feysydd. Mae'r dysgu un i un a hyblyg hwn yn llai tebygol o gael ei gofnodi ac mae'r tîm datblygu staff yn parhau i ymdrechu i godi ymwybyddiaeth o'r angen am gofnodi'r holl ddysgu ffurfiol ac anffurfiol.

Dylid nodi hefyd, oherwydd y cynnydd mewn mesurau diogelwch TG yn ystod misoedd cynnar 2023, fod gennym ostyngiad byr mewn dysgu ar-lein a effeithiodd ar oriau amrywiol rhan amser gan mai dyma eu prif ddull o gael mynediad at hyfforddiant. Hefyd yn 2023 ni welwyd unrhyw hyfforddiant gorfodol ar gyfer pob grŵp staff, sydd hefyd yn helpu i egluro'r gostyngiad mewn niferoedd.

5.1. Oedran

Yn 2023 a 2022 mae proffil oedran yr aelodau o staff sy'n ymgymryd â hyfforddiant yn adlewyrchu proffil oedran y Coleg yn agos, ar wahân i'r categori dros 60 mae'n 71% (gweler Atodiad 18).

5.2. Rhywedd

Wrth gymharu rhywedd, yn y categori PTHP, sef y categori gyda dim ond 5% o staff wedi cwblhau hyfforddiant, dim ond 1 fenyw allan o 25 (4%) ymgymrodd â hyfforddiant yn 2023 o gymharu â 15 (6.7%) o wrywod yn ystod yr un cyfnod (gweler Atodiad 19).

5.3. Anabledd

Yn 2023, fe wnaeth 42 allan o 53 (79%) o staff a ddywedodd fod ganddynt anabledd ymgymryd â hyfforddiant, o gymharu â 100% yn 2022 (gweler Atodiad 20).

5.4. Ethnigrwydd

Yn 2023, ymgymrodd 80% o aelodau o staff o gefndir lleiafrif ethnig â hyfforddiant, o gymharu â 100% yn 2022. (gweler Atodiad 21).

6.

Mae Adran 6 yn edrych ar ddata cydraddoldeb ar gyfer aelodau o staff sydd wedi bod yn destun disgyblu neu sydd wedi gwneud cwyn yn ystod y cyfnod.

Mae Atodiadau 26 i 33 yn amlinellu'r data ar gyfer aelodau o staff a fu'n destun camau disgyblu yn ystod 2023 a 2022. Mae hefyd yn cynnwys yr aelodau hynny o staff a fynegodd gŵyn yn ystod yr un cyfnodau.

Roedd 3 aelod o staff yn destun camau disgyblu yn 2023 (3 yn 2022). O blith y 3 aelod o staff, roedd 1 yn aelod o'r staff cefnogi, 1 yn rheolwr ac 1 yn staff academaidd. Yn 2023, o blith y rhai a oedd yn destun camau disgyblu, roedd 33% yn fenywod (100% yn 2022) a 67% yn wrywod (0% yn 2022).

Yn 2023, mynegodd 4 aelod o staff gŵyn (mynegwyd 6 yn 2022). Roedd un gŵyn yn ymwneud â phroses ac roedd y tair cwyn arall yn erbyn pobl. Codwyd y cwynion gan staff yn y categorïau Cefnogi (3) a Chefnogaethh Academaidd (1). Yn 2023, roedd 75% o'r staff a fynegodd gŵyn yn wrywod (17% yn 2022) ac roedd 25% yn fenywod (83% yn 2022). Roedd un gŵyna fynegwyd ar sail nodweddig.

7. Effaith ar Fyfyrrwyr

Effaith Gadarnhaol	Effaith Niwtral	Effaith Negyddol
X		

7.1. Disgwylir y bydd yr wybodaeth yn yr adroddiad yn cael ei defnyddio fel sail i osod nodau yn y Cynllun Gweithredu Gwrth Hiliaeth a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r camau gweithredu o ganlyniad. Byddai disgwyl i hyn gael effaith gadarnhaol ar fyfyrwyr.

8. Effaith ar Staff

Effaith Gadarnhaol	Effaith Niwtral	Effaith Negyddol
X		

8.1. Disgwylir y bydd yr wybodaeth yn yr adroddiad yn cael ei defnyddio fel sail i osod nodau yn y Cynllun Gweithredu Gwrth Hiliaeth a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r camau gweithredu o ganlyniad. Byddai disgwyl i hyn gael effaith gadarnhaol ar staff.

9. Effaith ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth

	Effaith		
	Cadarnhaol	Niwtral	Negyddol
Oedran	X		
Anabledd	X		
Ailbennu rhywedd	X		
Priodas a phartneriaeth sifil	X		
Beichiogrwydd a mamolaeth	X		
Hil	X		
Crefydd a chred	X		
Rhyw	X		
Cyfeiriadedd rhywiol	X		

Yr iaith Gymraeg		X	
------------------	--	---	--

9.1. Disgwylir y bydd yr wybodaeth yn yr adroddiad yn cael ei defnyddio fel sail i osod nodau yn y Cynllun Gweithredu Gwrth Hiliaeth a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r camau gweithredu o ganlyniad. Byddai disgwyl i hyn gael effaith gadarnhaol ar staff sydd â nodweddion gwarchoddedig.

10. Argymhelliad

10.1. Mae'r Pwyllgor yn penderfynu derbyn yr adroddiad.

OEDRAN

Proffil Oedran y Staff (yn ôl Maes Swyddi) ar 31/12/23

	Rheolwyr	Cefnogi	Cefnogaeth Academaidd	Academaidd	PTHP	Cyfanswm
<20	0	8	2	0	1	11
21-30	2	48	23	27	6	106
31-40	11	62	32	72	4	181
41-50	24	68	43	87	1	223
51-60	26	52	55	98	13	244
Dros 60	12	21	35	42	15	125
Cyfanswm	75	259	190	326	40	890

Proffil Oedran y Staff (yn ôl Maes Swyddi) ar 31/12/22

	Rheolwyr	Cefnogi	Cefnogaeth Academaidd	Academaidd	PTHP	Cyfanswm
<20	0	6	2			8
21-30	1	48	25	32	7	113
31-40	9	59	34	69	4	175
41-50	27	64	42	87	2	222
51-60	29	57	53	98	14	251
Dros 60	9	24	26	44	12	115
Cyfanswm	75	258	182	330	39	884

Proffil Oedran y Staff yn ôl Patrwm Gwaith/Math o Gontract ar 31/12/23

	Parhaol Llawn Amser	Dros Dro Llawn Amser	Tymor Penodol Llawn Amser	Parhaol Rhan Amser	Dros Dro Rhan Amser	Tymor Penodol Rhan Amser	Achlysurol	Cyflenwi	Cyfanswm
<20	3	0	6	1	0	0	0	1	11
21-30	42	0	8	31	0	20	3	2	106
31-40	58	0	6	81	0	32	1	3	181
41-50	86	0	3	107	0	26	0	1	223
51-60	87	0	2	129	0	15	4	7	244
Dros 60	44	0	0	66	0	4	3	8	125
Cyfanswm	320	0	25	415	0	97	11	22	890

Proffil Oedran y Staff yn ôl Patrwm Gwaith/Math o Gontract ar 31/12/22

	Parhaol Llawn Amser	Dros Dro Llawn Amser	Tymor Penodol Llawn Amser	Parhaol Rhan Amser	Dros Dro Rhan Amser	Tymor Penodol Rhan Amser	Achlysurol	Cyflenwi	Cyfanswm
<20	2	0	5	1	0	0	0	0	8
21-30	41	0	8	39	0	19	3	3	113
31-40	56	0	6	83	0	27	0	3	175
41-50	81	0	9	103	0	27	1	1	222
51-60	92	0	2	130	0	14	4	9	251
Dros 60	33	0	2	62	0	7	1	10	115
Cyfanswm	305	0	32	418	0	94	9	26	884

Proffil Oedran y Staff yn ôl Graddfa ar 31/12/23

	Agri	MAP	Sc1	Sc2	Sc3	Sc4	Sc5	Sc6	SO1	SO2	ASL1-4	MG1-UP1	UP2-UP3	Mgt 1-4	Mgt 5-10	Mgt 11	SPH AP	SP EXEC	Cyfanswm	
<20	1	6	2	2	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	11
21-30	0	4	14	17	09	16	7	5	3	0	4	25	0	1	1	0	0	0	0	106
31-40	0	0	13	17	15	15	15	9	7	5	1	48	25	8	2	1	0	0	0	181
41-50	0	0	8	24	7	19	12	21	12	5	0	32	55	15	8	1	1	3	3	223
51-60	1	0	17	23	12	15	22	17	22	5	0	24	78	9	7	6	2	2	2	244
Dros 60	0	0	11	24	6	9	8	9	8	1	1	12	31	3	3	1	4	1	1	125
Cyfanswm	2	10	65	107	49	74	64	61	64	16	6	141	189	36	21	9	7	6	6	890

Proffil Oedran y Staff yn ôl Graddfa ar 31/12/22

	Agri	MAP	Sc1	Sc2	Sc3	Sc4	Sc5	Sc6	SO1	SO2	ASL1-4	MG1-UP1	UP2-UP3	Mgt 1-4	Mgt 5-10	Mgt 11	SPH	Cyfanswm		
<20	0	5	1	2	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	8	
21-30	0	1	14	22	11	14	9	4	3	1	7	26	0	1	0	0	0	0	0	113
31-40	1	0	11	12	13	22	17	9	8	3	1	41	28	6	3	0	0	0	0	175
41-50	0	0	10	27	7	14	10	23	9	7	1	39	48	16	6	1	4	4	4	222
51-60	1	0	13	29	14	19	17	19	6	3	0	30	71	8	9	5	7	7	7	251
Dros 60	0	0	9	21	7	8	4	9	1	1	1	16	29	3	2	1	3	3	3	115
Cyfanswm	2	6	58	113	52	77	57	64	27	15	10	152	176	34	20	7	14	14	14	884

RHYWEDD

Proffil Rhywedd y Staff yn ôl Maes Swyddi ar 31/12/23

	Rheolwyr	Cefnogi	Cefnogaeth Academaidd	Academaidd	PTHP	Cyfanswm
Benyw	49	190	104	187	25	555
Gwryw	26	69	86	139	15	335
Cyfanswm	75	259	190	326	40	890

Proffil Rhywedd y Staff yn ôl Maes Swyddi ar 31/12/22

	Rheolwyr	Cefnogi	Cefnogaeth Academaidd	Academaidd	PTHP	Cyfanswm
Benyw	46	187	98	191	24	546
Gwryw	29	71	84	139	15	338
Cyfanswm	75	258	182	330	39	884

Proffil Rhywedd y Staff yn ôl Patrwm Gwaith/Math o Gontract ar 31/12/23

	Parhaol Llawn Amser	Dros Dro Llawn Amser	Tymor Penodol Llawn Amser	Parhaol Rhan Amser	Dros Dro Rhan Amser	Tymor Penodol Rhan Amser	Achlysurol	Cyflenwi	Cyfanswm
Benyw	165	0	16	277	0	75	10	12	555
Gwryw	155	0	9	138	0	22	1	10	335
Cyfanswm	320	0	25	415	0	97	11	22	890

Proffil Rhywedd y Staff yn ôl Patrwm Gwaith/Math o Gontract ar 31/12/22

	Parhaol Llawn Amser	Dros Dro Llawn Amser	Tymor Penodol Llawn Amser	Parhaol Rhan Amser	Dros Dro Rhan Amser	Tymor Penodol Rhan Amser	Achlysurol	Cyflenwi	Cyfanswm
Benyw	155	0	14	281	0	75	7	14	546
Gwryw	150	0	18	137	0	19	2	12	338
Cyfanswm	305	0	32	418	0	94	9	26	884

Proffil Rhywedd y Staff yn ôl Graddfa ar 31/12/23

	Agri	MAP	Sc1	Sc2	Sc3	Sc4	Sc5	Sc6	SO1	SO2	ASL1-4	MG1-UP1	UP2-UP3	Mgt 1-4	Mgt 5-10	Mgt 11	SPH AP	SP EXEC	Cyfanswm
Benyw	0	5	51	76	35	48	26	35	21	15	4	76	112	18	17	7	4	5	555
Gwryw	2	5	14	31	14	26	38	26	6	1	2	65	77	18	4	2	3	1	335
Cyfanswm	2	10	65	107	49	74	64	61	27	16	6	141	189	36	21	9	7	6	890

Proffil Rhywedd y Staff yn ôl Graddfa ar 31/12/22

	Agri	MAP	Sc1	Sc2	Sc3	Sc4	Sc5	Sc6	SO1	SO2	ASL1-4	MG1-UP1	UP2-UP3	Mgt 1-4	Mgt 5-10	Mgt 11	SPH	Cyfanswm
Benyw	0	2	45	79	35	49	25	39	19	12	7	81	107	17	13	6	10	546
Gwryw	2	4	13	34	17	28	32	25	8	3	3	71	69	17	7	1	4	338
Cyfanswm	2	6	58	113	52	77	57	64	27	15	10	152	176	34	20	7	14	884

Atodiad 3

ETHNIGRWYDD

Proffil Ethnigrwydd y Staff yn ôl Maes Swyddi ar 31/12/23

	Rheolwyr	Cefnogi	Cefnogaeth Academaidd	Academaidd	PTHP	Cyfanswm
Asiaidd/Asiaidd Prydeinig - Bangladeshaidd	0	2	1	1	0	4
Asiaidd/Asiaidd Prydeinig - Tsieineaidd	0	0	0	0	0	0
Asiaidd/Asiaidd Prydeinig - Indiaidd	0	0	0	3	1	4
Asiaidd/Asiaidd Prydeinig - Pacistanaidd	0	1	0	1	0	2
Asiaidd/Asiaidd Prydeinig - Arall	0	1	0	0	0	1
Du/Affricanaidd/Caribiaidd/Prydeinig - Affricanaidd	0	0	0	0	0	0
Du/Affricanaidd/Caribiaidd/Prydeinig - Caribiaidd	0	0	0	0	0	0
Du/Affricanaidd/Caribiaidd/Prydeinig - Arall	0	1	0	0	0	1
Grwpiau Ethnig Cymysg/Lluosog - unrhyw un arall	0	0	0	0	0	1
Cymysg/Lluosog - Gwyn a Du Affricanaidd	0	0	0	0	0	0
Cymysg/Lluosog - Gwyn a Du Caribiaidd	0	0	0	1	0	1
Cymysg/Lluosog - Gwyn ac Asiaidd	1	0	0	0	0	1
Heb ddarparu	1	2	3	2	1	9
Grŵp Ethnig Arall - Unrhyw un arall	0	1	0	0	0	1
Grŵp Ethnig Arall - Arab	0	0	0	0	0	0
Anhysbys - data heb eu darparu	0	1	2	1	3	7
Gwyn - Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig	0	0	0	0	0	0
Gwyn - Gwyddelig	0	1	0	0	0	1
Gwyn - unrhyw un arall	1	2	5	5	0	13
Gwyn - O Loegr/Cymru/Yr Alban/Gogledd Iwerddon	72	247	178	312	35	844
Cyfanswm	75	259	189	327	40	89

Proffil Ethnigrwydd y Staff yn ôl Maes Swyddi ar 31/12/22

	Rheolwyr	Cefnogi	Cefnogaeth Academaidd	Academaidd	PTHP	Cyfanswm
--	----------	---------	--------------------------	------------	------	----------

Asiaidd/Asiaidd Prydeinig - Bangladeshaidd	0	1	1	1	0	3
Asiaidd/Asiaidd Prydeinig - Tsieineaidd	0	0	0	1	0	1
Asiaidd/Asiaidd Prydeinig - Indiaidd	0	0	0	3	0	3
Asiaidd/Asiaidd Prydeinig - Pacistanaidd	0	1	1	0	0	2
Asiaidd/Asiaidd Prydeinig - Arall	0	1	0	0	0	1
Du/Affricanaidd/Caribiaidd/Prydeinig - Affricanaidd	0	0	0	0	0	0
Du/Affricanaidd/Caribiaidd/Prydeinig - Caribiaidd	0	0	0	0	0	0
Du/Affricanaidd/Caribiaidd/Prydeinig - Arall	0	1	0	0	0	1
Grwpiau Ethnig Cymysg/Lluosog - unrhyw un arall	0	0	0	1	0	1
Cymysg/Lluosog - Gwyn a Du Affricanaidd	0	0	0	0	0	0
Cymysg/Lluosog - Gwyn a Du Caribiaidd	0	0	0	1	0	1
Cymysg/Lluosog - Gwyn ac Asiaidd	1	0	0	0	0	1
Heb ddarparu	1	3	0	3	1	8
Grŵp Ethnig Arall - Unrhyw un arall	0	1	0	0	0	1
Grŵp Ethnig Arall - Arab	0	0	0	0	0	0
Anhysbys - data heb eu darparu	0	2	2	1	3	8
Gwyn - Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig	0	0	0	0	0	0
Gwyn - Gwyddelig	0	1	0	0	0	1
Gwyn - unrhyw un arall	1	2	1	4	2	10
Gwyn - O Loegr/Cymru/Yr Alban/Gogledd Iwerddon	72	245	177	315	33	842
Cyfanswm	75	258	182	330	39	884

Proffil Ethnigrwydd y Staff yn ôl Patrwm Gwaith/Math o Gontract ar 31/12/2023

	FTP	FTT	FTFT	PTP	PTT	PTFT	Achlysurol	Cyflenwi	Cyfanswm
Asiaidd/Asiaidd Prydeinig - Bangladeshaidd	1	0	1	1	0	1	0	0	4
Asiaidd/Asiaidd Prydeinig - Tsieineaidd	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Asiaidd/Asiaidd Prydeinig - Indiaidd	0	0	0	2	0	2	0	0	4
Asiaidd/Asiaidd Prydeinig - Pacistanaidd	2	0	0	0	0	0	0	0	2

Asiaidd/Asiaidd Prydeinig - Arall	1	0	0	0	0	0	0	0	0	1
Du/Affricanaidd/Caribiaidd/Prydeinig - Affricanaidd	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Du/Affricanaidd/Caribiaidd/Prydeinig - Caribiaidd	0	0	0	0	0	1	0	0	0	1
Du/Affricanaidd/Caribiaidd/Prydeinig - Arall	1	0	0	0	0	0	0	0	0	1
Grwpiau Ethnig Cymysg/Lluosog - unrhyw un arall	0	0	0	1	0	0	0	0	0	1
Cymysg/Lluosog - Gwyn a Du Affricanaidd	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Cymysg/Lluosog - Gwyn a Du Caribiaidd	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Cymysg/Lluosog - Gwyn ac Asiaidd	1	0	0	0	0	0	0	0	0	1
Heb ddarparu	4	0	0	3	0	1	0	1	0	9
Grŵp Ethnig Arall - Unrhyw un arall	0	0	0	1	0	0	0	0	0	1
Grŵp Ethnig Arall - Arab	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Anhysbys - data heb eu darparu	3	0	0	1	0	0	0	0	3	7
Gwyn - Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Gwyn - Gwyddelig	1	0	0	0	0	0	0	0	0	1
Gwyn - unrhyw un arall	3	0	1	7	0	3	0	0	0	13
